# Rhaglen Allforwyr Newydd 2026–2027

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan fusnesau bach a chanolig yng Nghymru sydd â diddordeb mewn ymuno â charfan nesaf ei Rhaglen Allforwyr Newydd ar gyfer 2026–2027.**

## Beth yw'r Rhaglen Allforwyr Newydd?

Nod y Rhaglen yw helpu i gynyddu nifer y microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru sy'n allforio yn rheolaidd ac mewn modd cynaliadwy a thrwy hynny ymgorffori allforio fel rhan annatod o'u strategaeth twf busnes gyffredinol.

Dros gyfnod o 9/10 mis ym mhob blwyddyn ariannol, mae'r Rhaglen Allforwyr Newydd yn cynnig cymorth arbenigol i garfan o gwmnïau nad ydynt yn allforio'n rheolaidd ar hyn o bryd ond sydd â chynnyrch neu wasanaeth sydd â photensial allforio clir ac sydd wedi ymrwymo i roi hwb i'w hallforion.

## Pam gwneud cais?

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cymorth arbenigol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys:

- Hyfforddiant i'r garfan gyfan er mwyn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u gallu o ran allforio.
- Gwasanaeth asesu parodrwydd allforio pwrpasol i nodi bylchau ac anghenion.
- Cyfle i elwa ar fentoriaid profiadol i helpu i ddatblygu eich strategaeth allforio.
- Gweithdy 'Cyflwyno ar gyfer Gwerthiannau Allforio' i helpu i wella eich sgiliau cyflwyno a'ch sgiliau gwerthu.
- Hyfforddiant sgiliau allforio, gyda'r opsiwn i ennill cymwysterau achredig.
- Ymweliad 3 diwrnod o hyd â marchnad yn yr Iseldiroedd gyda chyfarfodydd busnes unigol wedi'u trefnu ymlaen llaw gyda darpar bartneriaid neu gwsmeriaid.

*Sylwer: nid oes tâl am ymuno â'r rhaglen allforwyr newydd. Fodd bynnag, mae angen cyfraniad o £750 fesul person tuag at gost teithio/llety ar gyfer yr ymweliad â'r farchnad.*

## Amserlen y Rhaglen

EBR – MEH: Cyfnod recriwtio

MEH – AWST: Ymgysylltu
Sesiynau un-i-un, mentora, a chymorth wedi'i deilwra

MEDI: Lansio'r Rhaglen yn swyddogol (Cwrdd â'r Garfan)
Parhau â'r Sesiynau un-i-un, mentora, a chymorth wedi'i deilwra

HYD: Gwaith maes cyflenwyr ar gyfer Ymweliad â'r Farchnad gyda chyfarfodydd busnes wedi'u trefnu ymlaen llaw

TACH: Ymweliad â'r Farchnad yn yr Iseldiroedd

ION – MAW: Parhau â'r Sesiynau un-i-un, mentora, a chymorth wedi'i deilwra
Gwerthuso'r Ymweliad â'r Farchnad a chamau dilynol

EBR | MAI | MEH | GOR | AWST | MEDI | HYD | TACH | RHAG | ION | CHWE | MAW



## Pwy all wneud cais? Meini Prawf Cymhwystra

Mae'r Rhaglen yn agored i **ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru** sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Lleoliad a Deilliad: Wedi'i leoli yng Nghymru ac yn gwerthu cynhyrchion neu wasanaethau sy'n deillio'n bennaf o Gymru neu'n ychwanegu gwerth sylweddol at gynnyrch/ gwasanaeth nad yw'n deillio o Gymru.
- Busnes sy'n cyflogi 5 neu fwy o staff nad yw'n gwneud llawer o werthiannau allforio neu sy'n gwneud dim gwerthiannau o gwbl, neu'r rhai nad ydynt wedi allforio yn y 5 mlynedd diwethaf.
- Potensial Allforio: Mae ganddynt gynnyrch neu wasanaeth gyda photensial clir ar gyfer marchnadoedd rhyngwladol.
- Perchnogaeth: Yn berchen ar yr eiddo deallusol (IP) neu'r brand maent yn ei werthu neu fod ganddynt yr hawliau i wneud hynny.
- Ymrwymiad: Yn gallu ymrwymo i ymgorffori allforion fel strategaeth fusnes graidd ac ymgysylltu'n llawn â'r Rhaglen, gan gynnwys cymryd rhan yn yr ymweliad â'r farchnad.
- Sefydlogrwydd ariannol: Bod â'r sefydlogrwydd ariannol a'r adnoddau angenrheidiol i gynnal gweithgareddau allforio.

## Mae lleoedd yn gyfyngedig, a byddant yn cael eu dyrannu'n gystadleuol.

### Nodwch eich diddordeb nawr

I gael rhagor o wybodaeth am y Rhaglen Allforwyr Newydd a'r carfanau blaenorol, cliciwch yma:

**Rhaglen Allforwyr Newydd | Busnes Cymru – Allforio**

I gofrestru eich diddordeb ar gyfer cohort 2026-2027 – anfonwch e-bost at

**internationaltrade@gov.wales**

**Dyddiad cau ar gyfer datgan diddordeb: 17 Ebrill 2026**

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54208. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg